



Llwybrau Chwedleua Gwrth-hiliaeth

Rôl: Rheolwr Prosiect (swydd lawrydd)

Dechrau: Chwefror 2023 (72 diwrnod @ £200 y dydd hyd ddiwedd Mawrth 2024)

12 diwrnod ar gyfer Chwef 23 hyd Fawrth 23 ar gyfer y cyfnod cychwynnol, 60 diwrnod ar gyfer blwyddyn 2

Contract Cychwynnol hyd: Mawrth 2024

Mae'r prosiect Llwybrau Chwedleua Gwrth-hiliaeth yn gynllun cydweithredol rhwng Beyond the Border, Gŵyl Chwedleua Ryngwladol Cymru a People Speak Up. Mae'r prosiect yn cysylltu gyda phrosiect Hwb Chwedleua Myseliwm, gan ymwreiddio chwedleuwyr a chynhyrchwyr ar draws Cymru, ac mae hefyd yn cynnwys datblygu sefydliadol a chynllunio gweithredu ar draws y ddau sefydliad. Rydym yn chwilio am Reolwr Prosiect gyda phrofiad personol o hiliaeth i lywio'r prosiect, rheoli'r rolau creadigol sy'n cael eu recriwtio a sicrhau bod y prosiect yn cyflawni ei amcanion, mewn partneriaeth â thimau yn y ddau sefydliad.

Diben y Swydd

- Rheoli'r prosiect i gyflawni ei amcanion, i ddatblygu rhaglenni diwylliannol wedi eu creu ar y cyd, sy'n dathlu'r storiâu cyfoethog ac amrywiol o'n treftadaeth gyffredin.
- Sicrhau bod y ddau sefydliad yn annog hyfforddiant gwrth-hiliaeth ar ffurf celfyddyd a chynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth sefydliadol, gan weithio'n weithredol a chadarn ar wrth-hiliaeth.
- Rhoi cefnogaeth i Gyfarwyddion a'r Cynhyrchydd a recriwtir ar gyfer y prosiect, ac ymgysylltu â chynghorwyr, paneli a mentoriaid sy'n cael eu recriwtio i gefnogi'r prosiect
- Rheoli cyllideb y prosiect a chasglu data, gan gyflawni gofynion gweinyddol y rôl.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Gweithio ar y cyd â Beyond the Border a People Speak Up i reoli'r prosiect fel y nodir yng nghynllun a chyllideb y prosiect
- Datblygu cyfleoedd fydd yn cynyddu'r ddarpariaeth wrth-hiliaeth, yng nghyswllt arfer chwedleua ar draws Cymru
- Cefnogi deiliaid y swyddi

Cyfrifoldebau Gweithredol

- Gweithio ar y cyd â Beyond the Border a People Speak Up i reoli'r prosiect fel y nodir yng nghynllun a chyllideb y prosiect
- Cefnogi recriwtio 2 Gyfarwydd a Chynhyrchydd erbyn diwedd Mawrth 2023
- Datblygu cronfa ddata gynyddol o lunwyr penderfyniadau, pobl greadigol, ymgynghorwyr a mentoriaid Du, Asiaidd a lleiafrif ethnig i gefnogi cyflawni'r cynllun, wedi ei integreiddio i raglenni'r ddau sefydliad
- Cychwyn hyfforddiant gwrth-hiliaeth i staff, bwrdd a thimau gwirfoddol y ddau sefydliad, gan adolygu a diweddarau systemau cofnodi ar gyfer profiadau o hiliaeth a gwahaniaethu
- Creu cynlluniau gwrth-hiliaeth atebol mewn partneriaeth â thimau yn y ddau sefydliad
- Rhoi hyfforddiant gwrth-hiliaeth penodol i ffurf gelfyddydol i artistiaid a chynhyrchwyr, gan ymdrin â meddiannu diwylliant ac aralleiddio, stereoteipiau, a gwahaniaethu mewn chwedleua, gan roi cefnogaeth ac atebolrwydd er mwyn galluogi arfer gorau
- Cefnogi digwyddiadau lleol a thrwy Gymru sy'n dathlu treftadaeth ddiwylliannol amrywiol Cymru, gan gynnwys prosiectau creadigol diaspora Mwyafrif Byd-eang rhyngwladol, wedi eu creu ar y cyd gyda Chyfarwyddion/Cynhyrchwyr.
- Dynodi ffrydiau cyllido ar gyfer parhau/ehangu'r gwaith
- Rhoi cefnogaeth weinyddol a chyfathrebu o ddydd i ddydd i'r prosiect
- Rheoli'r gyllideb sy'n gysylltiedig â'r prosiect
- Cyflawni'r holl ofynion gweinyddol, monitro data a gwerthuso ar gyfer y swydd

MANYLEB PERSON

HANFODOL

- Profiad o reoli prosiectau celfyddydol
- Profiad o gefnogi datblygiad sefydliadol
- Profiad o gefnogi ymarferwyr creadigol
- Profiad o reoli cyllideb
- Sgiliau gweinyddu, TG a chyfathrebu cryf
- Profiad o weithio gyda chyfranogwyr o bob oed a gallu yn y celfyddydau
- Y gallu i greu perthynas waith gadarnhaol gydag amrywiaeth eang o unigolion, sefydliadau a rhanddeiliaid
- Trefnus iawn gyda dull hyblyg a rhagweithiol o weithio a'r gallu i weithio at ddyddiadau cau gan flaenoriaethu llwyth amrywiol o waith
- Parodrwydd a gallu i weithio yn annibynnol ac fel rhan o dîm
- Yn gallu defnyddio ei gymhellant ei hun yn ogystal â gweithio o fewn y canllawiau a ddarperir
- Defnydd o gyfrifiadur, argraffydd a ffôn
- Dealltwriaeth o gyfle cyfartal, amrywiaeth a mynediad ac ymrwymiad iddynt

SGILIAU DYMUNOL/

- Diddordeb mewn gair ar lafar a chwedleua
- Gwybodaeth dda a phrofiad o ddefnyddio llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a strategaethau ymgysylltu ar-lein
- Sgiliau ymchwilio da

- Y gallu i werthuso gweithgaredd
- Profiad personol o hiliaeth

Mae'r swydd yn cael ei neilltuo ar gyfer ymgeiswyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn yn seiliedig ar ymrwymiad i arfer gwrth-hiliaeth ac yn adlewyrchu'r tan gynrychiolaeth yn ein sector yr ydym am ymdrin ag o.

Er mwyn ymgeisio, anfonwch eich CV a llythyr 1 dudalen A4 yn esbonio sut yr ydych yn bodloni'r fanyleb person a beth fyddwch chi'n ei ddwyn i'r swydd. Gallwch ymgeisio hefyd trwy fideo, gan eich ffilmio eich hun yn ateb y cwestiynau hyn.

Anfonwch eich cais at recruitment@beyondtheborder.com erbyn Dydd Sul 12 Chwefror am 5pm.

Byddwn yn cynnal gweminar ar-lein i rannu gwybodaeth am y prosiect a'r swyddi sydd ar gael ar y dyddiadau hyn:

Dydd Mawrth 7 Chwefror, 7 – 8pm

Dydd Iau 9 Chwefror, 7 – 8pm ar Zoom.

Mae'r Llwybrau Chwedleua Gwrth-hiliaeth yn bosibl gyda chyllid o Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Cymru Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru.



Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government